**Yr Ysgoloriaethau Astudio drwy'r Gymraeg**
**Telerau ac Amodau**

1. Mae unrhyw fyfyriwr israddedig llawn-amser yn gymwys i dderbyn Ysgoloriaeth Astudio Cyfrwng Cymraeg os ydynt yn bodloni'r meini prawf ynghyd â'r nifer o gredydau a astudir trwy gyfrwng y Gymraeg, yn hytrach na thrwy'r Saesneg, pan yn bosibl. Edrychwch ar eich dewisiadau o fodiwlau ar eich cofnod myfyriwr i weld faint o gredydau cyfrwng Cymraeg rydych chi wedi cofrestru arnynt.

2. Bydd ymgeiswyr cymwys yn cael eu hadnabod yn awtomatig, yn unol â'u cynllun gradd a'u dewisofodiwlau; nid oes rhaid ymgeisio am yr ysgoloriaethau hyn.

3. Mae pob cynllun gradd israddedig amser-llawn yn gymwys i'w hystyried ac eithrio cyrsiau a gynigir yn unig gan Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd. Yn achos cynlluniau cyfun neu gynlluniau is bwnc : prif bwnc a gynigir gan Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd, bydd y cwrs yn berthnasol pan fydd y credydau cyfrwng Cymraeg wedi'u derbyn gan y pwnc 'arall', h.y. y maes pwnc nad yw'n cael ei ddarparu gan Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd. Bydd modiwlau a gyngir gan Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd yn cael eu cynnwys fel rhai cymwys ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio cynllun gradd mewn adran arall. Er enghraifft:

    - I fyfyrwyr sydd wedi cofrestru ar gynllun gradd GQ15 Cymraeg a Mathemateg, bydd rhaid i'r holl gredydau cymwys ddod o'r elfen Fathemateg yn hytrach na'r Gymraeg.

    - I fyfyrwyr sydd wedi cofrestru ar gynllun gradd C100 Bioleg, bydd yr holl gredydau cyfrwng Cymraeg yn cael eu hystyried, gan gynnwys modiwlau a gynigir gan Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd.

4. Bydd taliad yn cael ei wneud yn uniongyrchol i gyfrif banc deiliad yr ysgoloriaeth ar ddechrau mis Mawrth bob blwyddyn tra bydd y deiliad yn dal yr ysgoloriaeth. Bydd cymhwysedd pob myfyriwr ar gyfer yr ysgoloriaeth yn cael ei ail-asesu yn flynyddol.

5. Os nad yw myfyriwr yn cwblhau'n dderbyniol y credydau cyfrwng Cymraeg angenrheidiol neu yn newid i fodiwl anghymwys ar ôl i'r taliad gael ei wneud, bydd gofyn iddynt ad-dalu'r swm a dderbyniwyd.

6. Mae'r uchod yn berthnasol o flwyddyn academaidd 2023/24 ymlaen; ni fydd dyfarniadau'n cael eu hôl-ddyddio.

7. Ni wneir taliadau i fyfyrwyr cyfnewid, ar gyfer blynyddoedd a ailadroddir, blynyddoedd profiad gwaith, blynyddoedd mewn diwydiant, blynyddoedd tramor ayyb.

8. Bydd Myfyrwyr sy'n gohirio mynediad yn derbyn Ysgoloriaethau/Bwrsariaethau ar y lefel a hysbysebwyd ar gyfer y flwyddyn gais.

9. Mae'r gwobrau'n daladwy i fyfyrwyr sy'n astudio ar gyfer gradd lawn yn unig (nid i'r sawl sydd wedi trosglwyddo i flynyddoedd 2 neu 3 o'r cwrs).

10. Bydd y taliadau'n para tra bydd myfyriwr yn dal y wobr, yn amodol ar fodloni'r rheoliadau (os bydd blwyddyn yn cael ei hail-wneud ni wneir taliadau, ac eithrio Bwrsariaeth Aberystwyth).

11. Mae'n bwysig cofio, os y byddwch mewn dyled i'r Brifysgol, y bydd taliadau'r Ysgoloriaeth neu Fwrsariaeth yn cael eu dal yn ôl a'u defnyddio yn erbyn y ddyled.

12. Os bydd myfyriwr yn tynnu'n ôl o'u hastudiaethau am byth cyn Rhagfyr 1af, bydd y Swyddfa Gyllid yn hawlio'r cyfan o'r taliad cyntaf yn ôl. Os bydd myfyriwr yn tynnu'n ôl am byth rhwng Rhagfyr 1af a Mawrth 2il, bydd y Swyddfa Gyllid yn hawlio yn ôl y cyfan o'r ail daliad. O dan yr amgylchiadau hyn, os nad yw'r symiau yn cael eu had-dalu, mae'n bosibl y bydd yr achos yn cael ei gyfeirio at asiantaeth casglu dyledion y Brifysgol.

13. Mae'r wybodaeth a geir yn y ddogfen hwn yn berthnasol i fyfyrwyr a fydd yn ymgymryd â'u hastudiaethau yn Aberystwyth yn unig, ac nid yw'n berthnasol i fyfyrwyr sy'n astudio rhaglenni breiniol neu raglenni wedi'u dilysu a gyflwynir gan bartneriaid.

14. Mae Prifysgol Aberystwyth yn cadw'r hawl i newid neu ddileu unrhyw un o'n Hysgoloriaethau, Bwrsariaethau a Gwobrau Ariannol cyfredol.

15. Bydd methu â bodloni unrhyw un o'r gofynion uchod yn arwain at dynnu'r Ysgoloriaeth yn ôl.